Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad | Date: 29 Ionawr 2021

Pwnc | Subject: **Atgyfeiriadau diogelu a Phlant sy'n Derbyn Gofal**

Annwyl Julie,

Diolch am ddod i'r cyfarfod Pwyllgor ar 21 Ionawr 2021 fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22.

Yn ystod y sesiwn honno, gofynnwyd i chi am atgyfeiriadau diogelu a gwnaethoch ddweud wrthym fod proses casglu data wythnosol gyda'r awdurdodau lleol a bod data'n dangos sut y mae'r awdurdodau lleol yn ymdopi â'r gwasanaethau. Hefyd, gwnaethoch ddweud wrthym y bu cwymp mewn atgyfeiriadau diogelu yn y cyfnod clo cyntaf, ond eich bod wedi cael sicrwydd gan gadeiryddion y byrddau diogelu eu bod wedi adfer a bod atgyfeiriadau'n fwy cyffredin nawr nag roeddent o'r blaen.

Fel rhan o'n gwaith craffu parhaus ar effaith pandemig COVID-19, rydym yn ysgrifennu i ofyn am ychydig o wybodaeth ychwanegol gennych mewn perthynas â nifer yr atgyfeiriadau diogelu a phlant sy'n derbyn gofal.

Rydym yn nodi pryderon a fynegodd y Comisiynydd Plant yn Lloegr, yr wythnos diwethaf, fod plant agored i niwed wedi dod yn anweledig oherwydd COVID-19. Ymhellach, nodwn iddi adrodd ar gwymp sylweddol mewn atgyfeiriadau at wasanaethau plant yn Lloegr, sef 10 y cant, rhwng diwedd mis Ebrill a mis Tachwedd 2020.

Gwyddoch fod sylw diweddar yn y wasg yng Nghymru wedi adrodd ar sylwadau a wnaeth y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn awgrymu bod nifer yr atgyfeiriadau diogelu plant wedi gostwng a phryderon bod plant agored i niwed wedi dod yn angof.

Yn y cyd-destun hwnnw, byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad ar y ddau bwynt a ganlyn:

- Y sefyllfa ar nifer yr atgyfeiriadau diogelu plant yng Nghymru ers mis Mawrth 2020 a chymhariaeth â'r ffigurau cyfatebol ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

- Y sefyllfa ddiweddaraf ar nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw nifer y plant sy'n dod i'r system yn aros yn sefydlog ac a fu gostyngiad yn nifer y plant sy'n gadael y system.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both Welsh and English.